
# O Gwmpas 2017

## yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a chefn gwlad Sir Ddinbych



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council



**Mae ein rhaglen 2017 yn cynnig ystod o ffyrdd i fwynhau'r dirwedd syfrdanol a threftadaeth yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r cefn gwlad cyfagos.**

## Cysylltwch â ni


Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Parc Gwledig Loggerheads, Sir Ddinbych,
CH7 5LH

01824 712757

loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk


denbighshirecountryside.org.uk
clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk
ridenorthwales.co.uk

**Chwiliwch amdanom ar y cyfryngau cymdeithasol**

- Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
- AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Parc Gwledig Loggerheads
- Beicio Gogledd Cymru
- Môr-wenoliaid Bach

Symbolau **Teithiau Tywys** – Cofiwch wisgo'n addas ar gyfer y tywydd a'r tir a dod â bwyd a diod.

| | |
|---|---|
| **Hawdd** | taith gerdded fer ar lwybr wyneb caled neu weithgarwch teuluol hygyrch |
| **Cymedrol** | rhai darnau serth ac arwynebau rhydd |
| **Anodd** | hir ac egnïol, anwastad, tir llethrog |

Help **Cyfeirnod Grid** – www.gridref.org.uk
Rhowch y cyfeirnod grid yn y blwch chwilio, ac fe gewch fap.




**Mae cefn gwlad yn gallu bod yn ddiwrnod gwych allan gyda'ch ci, byddwch yn gyfrifol os gwelwch yn dda. Cadwch eich ci ar dennyn neu o dan reolaeth agos, codwch faw eich ci a chael gwared ohono yn gyfrifol.**

**Rydym yn croesawu adborth a sylwadau.**
Anfonwch eich sylwadau, syniadau ac awgrymiadau i **loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk**

# Calchfaen

Mae calchfaen yn tanlinellu llawer o dirweddau trawiadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy o Sgarp Eglwyseg, Bryn Alyn, Loggerheads, Graig Fawr i Foel Hiraddug.




Dathlir ein tirweddau calchfaen yng nghyhoeddiad diweddaraf AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, *Canfod Tirweddau Calchfaen*. Mae'n cynnwys gwybodaeth am sut y crëwyd y graig, safleoedd archeolegol neilltuol, treftadaeth ddiwydiannol, teithiau cerdded a'r fioamrywiaeth arbennig sydd yn perthyn i'r tirweddau calchfaen.

Casglwch eich copi o Ganolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Loggerheads.



# Môr-wenoliaid

**Môr-wenoliaid yw un o adar prinnaf Prydain.**

Rydem yn ffodus yn Sir Ddinbych i gael un o'r safleoedd mwyaf llwyddiannus ar gyfer mor-wenoliaid yn Nhwyni Gronant, ger Prestatyn. Mae Gwirfoddolwyr yn helpu Gwasanaeth Cefn Gwald Sir Ddinbych yn flynyddol i godi ffens a sicrhau nad ydynt yn cael eu tarddu drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, rheoli ysglyfaethwyr, megis adar ysglyfaethus a chadw llygad ar gyflwr y môr-wenoliaid.

Sefydlwyd grŵp Môr-wenoliaid Gogledd Cymru yn 2016 er mwyn rhoi cymorth i'r Gwasanaeth Cefn Gwlad i ddiogelu nythfa Gronant ac i gynyddu ymwybyddiaeth am yr aderyn ar draws gogledd Cymru. Gall unrhyw un a fyddai yn hoffi rhoi cymorth i'r môr-wennol ddod yn aelod am daliad bychan blynyddol, gweler y manylion cysylltu isod.

Am wybodaeth bellach ar aelodaeth ewch i Grŵp Môr-wennol Gogledd Cymru, e-bost nwlittletern@gmail.com, ymwelwch www.facebook.com/nwlittletern neu galwch 01745 356197.

**18 - 26 Chwefror**
**10:00 - 15:00**
**Taith Gerdded Welintons Hanner Tymor**



Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Gwisgwch eich welintons a galwch heibio i gwblhau her y Daith Gerdded Welintons er mwyn hawlio'ch gwobr.
£2.50

**18 Chwefror - 31 Mawrth**
**Arddangosfa Newid Ysgol Clawdd Offa**
Parc Gwledig Loggerheads
Dewch i weld arddangosfa gelf disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Clawdd Offa wedi iddynt fod yn gweithio gyda'r artistiaid Jude Wood a Jo Marsh yn yr Oriel.

**Dydd Gwener 24 Chwefror**
**10:00 - 2:00**
**Taith Gerdded Graig Fawr**
Cyfarfod: Maes Parcio Diserth ar gyfer Llwybr Prestatyn Diserth
Cylchdaith hardd 6.5 milltir gyda golygfeydd o'r wlad o ben Graig Fawr.
Archebwch le os gwelwch yn dda

**Dydd Gwener 10 Mawrth**
**10:00 - 12:00**
**Loggerheads i Bawb**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Dewch i ddathlu diwrnod mynediad i'r anabl gyda thaith dywys hanner milltir o amgylch llwybr hygyrch Parc Gwledig Loggerheads. Caiff pobl sydd wedi eu cofrestru'n anabl ostyngiad o 20% yng Nghanolfan Ymwelwyr Loggerheads.

**Dydd Mercher 15 Mawrth**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Castell Y Waun**
Cyfarfod: Prif Faes Parcio Castell y Waun SJ267 384
Darganfyddwch chwedl y llaw goch ar y daith gerdded wanwynol fer hon.

**Dydd Sadwrn 18 Mawrth**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Briallu**
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Ymunwch â Garddwr Plas Newydd ar daith gerdded briallu. Cost yn £3 sy'n cynnwys briallu Plas Newydd i fynd adref gyda chi.
Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 29 Mawrth**
**10:00 - 15:00**
**Cylchdaith Glyndyfrdwy**
Cyfarfod: Cilfan fawr ar yr A5 ar y dde wrth i chi gyrraedd Glyndyfrdwy
Ymunwch â Cherddwyr Wrecsam am daith 6 milltir o Lyndyfrdwy i fyny at Lwybr Gogledd y Berwyn. Cwrdd am 9.45 er mwyn dechrau am 10.00. Dim cŵn os gwelwch yn dda. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 5 Ebrill**
**10:00 - 12:00**
**Llandegla Hanesyddol**
Cyfarfod: Ger Eglwys Sant Tegla, Llandegla SJ197 524
Ymunwch â'n Archeolegydd Sirol wrth i ni archwilio lleoliad a straeon Tomen y Rhodwydd a ffynnon Sant Tegla.

**8 - 23 Ebrill**
**10:00 – 16:00**
**Helfa Cwningen y Pasg**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Dewch i geisio dod o hyd i'r gwningen enwog sy'n cuddio yn y parc. Bydd gwobr i bawb sy'n dod o hyd iddi! £2.50

**11 Ebrill – 2 Mai**
**10:00 - 16:00**
**Arddangosfa Grŵp Celf Treffynnon**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Cyfle i ymweld ag Arddangosfa Grŵp Celf Treffynnon yn Oriel Loggerheads.

**Dydd Gwener 14 Ebrill**
**11:00 - 15:00**
**Llwybr y Pasg yng Nghoed Nercwys**
Cyfarfod: Coed Nercwys, pen gogleddol y goedwig. SJ218 593
Cwblhewch Lwybr y Pasg o amgylch Coed Nercwys i hawlio eich gwobr.
£2 (elw tuag at Brosiect y Ceidwaid Ifanc)

**15 ac 16 Ebrill**
**11:00 - 15:00**
**Llwybr Pasg Plas Newydd**
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Archwiliwch Erddi Plas Newydd a darganfyddwch greaduriaid y goedlan er mwyn ennill gwobr siocled! £2

**Dydd Mawrth 18 Ebrill**
**10:00 - 12:00**
**Helfa Pwrs y Fôr-Forwyn**
Cyfarfod: Maes Parcio Gronant Isaf, Shore Road SJ090 837
Chwiliwch am byrsiau môr-forwyn a darganfyddwch fwy amdanynt ar draeth cerrig mân gwych Gronant. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 19 Ebrill**
**10:00 - 15:00**
**Gwyfynod Gwych**
**Cyfarfod: Pwll Brickfield, y Rhyl**
Mae dal gwyfynod yn hwyl, yn gyntaf byddwn yn edrych ar ein trap er mwyn gweld pa rywogaethau sydd o gwmpas, yna bydd cyfle i adeiladu eich trap gwyfynod eich hun. Archebwch le os gwelwch yn dda.



**Dydd Gwener 21 Ebrill**
**10:00 - 13:00**
**Brodwaith**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen

Dewch i edrych yn fanylach ar y cerfiadau enwog yn y tŷ a gweld os gallwch eu copïo mewn edau. Cost mynediad arferol. Galwch 01978 862834 i archebu lle ar y digwyddiad.

**Dydd Mercher 26 Ebrill**
**18.30 - 20.30**
**Sgwrs am chwedlau lleol**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen

Mae'n Flwyddyn y Chwedlau felly dewch i ddarganfod mwy am eich chwedlau lleol chi yn y sgwrs ddiddorol hon gan Gill Smith o Amgueddfa Llangollen. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**29 Ebrill - 1 Mai**
**Gŵyl Gerdded Llangollen.**
www.llangollenwalkingfestivail.co.uk

**Dydd Mercher 3 Mai**
**14:00 - 16:00**
**Sesiynau Blasu Cerdded Nordig**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads

Mae cerdded Nordig yn tynhau'r corff ac yn llosgi mwy o galorïau na cherdded ac mae'n arbennig o dda ar gyfer y galon a'r ysgyfaint, yn lleihau pwysau ar eich cymalau ac yn wych ar gyfer problemau ysgwydd, cefn a gwddf. Dewch i gael tro arno ar Ddiwrnod Asthma'r Byd Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 3 Mai**
**10:00 - 15:00**
**Helpwch i wneud cartref diogel i'r Môr - wenoliaid Bychan**

Cyfarfod: Twyni Gronant, Shore Road SJ074 842

Helpwch gyda'r gwaith o ffensio'r gefnen o gerrig mân i ffwrdd er mwyn helpu gwarchod un o'n mathau prinnaf o adar môr.



**Dydd Sadwrn 6 Mai**
**4:30 - 7:30am**
**Côr Adar y Wawr**

Cyfarfod: Pencoed Dinbych SJ046 657

Mwynhewch olygfeydd a synau natur ar Ddiwrnod Rhyngwladol Côr y Wawr Archebwch le os gwelwch yn dda

**Dydd Llun 8 Mai**
**11:00 - 12:00**
**Helfa Drychfilod!**

Cyfarfod: Nant Clwyd y Dre

Taith dywys natur o amgylch Gardd yr Arglwydd er mwyn gweld a dysgu am y trychfilod diddorol sy'n byw yma. Addas i bob oedran, rhaid i bob plentyn ddod yng nghwmni oedolyn. Pris mynediad arferol.

**Dydd Mercher 10 Mai**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Eglwys Llangar**

Cyfarfod: Cilfan Stamp SJ065 423
Dewch am dro ar lan yr afon i archwilio'r eglwys ganoloesol ddiddorol – ond pam fod yr eglwys mewn lleoliad mor hardd? Archebwch le os gwelwch yn dda

**Dydd Gwener 12 Mai**
**10:00 - 14:00**
**3 Gwarchodfa, twyni, gwelyau a choedlan**

Cyfarfod: Maes parcio gyferbyn Parc Carafanau Greenacres, Gronant
Archwiliwch dwyni tywod, gwelyau cyrs a choedlan ar y gylchdaith 7 milltir hon wrth i ni ymweld â thair gwarchodfa natur ar adeg gyffrous o'r flwyddyn gyda Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Archebwch le os gwelwch yn dda


**Dydd Sadwrn 13 Mai**
**11:00 - 15:00**
**Cyfeiriannu a Gwneud Bathodynnau**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Galwch i mewn i weld pa mor gyflym y gallwch chi orffen ein her Cyfeiriannu.

**Dydd Mawrth 16 a dydd Mercher 17 Mai**
**10:00 - 16:00**
**Codi Waliau Sych**


Cyfarfod: Prif Faes Parcio Corwen
Ydych chi erioed wedi bod awydd dysgu sut i godi waliau sych? Gallwch ymuno â ni yng Nghoed Pen y Pigyn am gyfarwyddyd ac ymarfer.


**19 - 21 Mai**
**Gŵyl Gerdded Prestatyn**
www.prestatynwalkingfestival.co.uk



**Dydd Mercher 17 Mai**
**10:00 - 15:00**
**Dewch i roi tro ar bysgota bras - yn Toriad y Rhyl.**

Cyfarfod: Maes Parcio Maes Chwarae Antur y Rhyl, Rhydwen Close SJ007 804
Dysgwch sut i baratoi a physgota mewn modd effeithiol, diogel, ac ecogyfeillgar. Darperir offer, abwyd a chyngor. Gwisgwch yn addas ar gyfer y tywydd. Archebwch le os gwelwch yn dda.





**Dydd Iau 25 Mai**
**Cylchdaith Tremeirchion**
**10:30 - 12:30**

Cyfarfod: Salusbury Arms SJ0831 7304

Cerddwch ar hyd rhan o Lwybr Clawdd Offa, gan basio drwy bentref Tremeirchion a'r Llwybr Milltiroedd Cymunedol. Archebwch le os gwelwch yn dda

**Dydd Sadwrn 27 Mai**
**Suo Llangollen**
**11:00 - 16:00**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen

Ymunwch â Chyfeillion y Ddaear Llangollen mewn hwylddydd teuluol i wneud Llangollen yn gyfeillgar i'r gwenyn. Helpwch Sw Caer i ddarganfod cacwn, ymunwch â'r ymddiriedolaeth bywyd gwyllt ar gyfer y labordy awyr agored, dilynwch daith y cacwn, cewch gyfle i flasu mêl, paentio wynebau a bydd gwobr ar gyfer y wisg ffansi peillydd gorau!

**Dydd Iau 1 Mehefin**
**10.30 - 12.30 & 13:00 - 15:00**
**Ar Camera**

Cyfarfod: Hen Garchar Rhuthun

Cyfle i greu eich poster 'Yn Eisiau' eich hun. Ymgollwch mewn lluniau a dysgwch am fywyd y carcharorion. Cost Mynediad arferol ac £1 y poster

**Dydd Iau 1 Mehefin**
**10:00 - 13:00**
**Adnabod a Chadwraeth Blodau Gwyllt**

Cyfarfod: Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen

Datblygwch eich sgiliau adnabod blodau gwyllt a rhoi cymorth i gynnal amodau ffafriol ar gyfer planhigion sy'n caru calchfaen ar hyd un o'n Gwarchodfeydd Natur ger y Ffordd yn Nyffryn hyfryd Eglwyseg. Archebwch le.



**2, 3 a 4 Mehefin**
**Loggfest**

Cyfarfod: We Three Loggerheads a Pharc Gwledig Loggerheads


Hwyl i'r Teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads gyda Chastell Bownsio, stondinau crefft, paentio wynebau, weiren wib (yn y Colomendy), hen geir (yn Garej Loggerheads) a bandiau fin nos (We Three Loggerheads).

**4 - 10 Mehefin**
**Gŵyl Gerdded Wrecsam**
**www.walksinwrexham.com**

**Dydd Mercher 7 Mehefin**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Ffynnon Sant Collen**

Cyfarfod: gyferbyn y Ponderosa SJ192 481

Dewch i ymuno yn y chwilio am y ffynnon lle lladdodd Sant Collen y gawres arswydus!



## 1 - 7 MEHEFIN

# WYTHNOS GWIRFODDOLI







**Dydd Gwener 2 Mehefin**

**10:00 - 13:00**

Helpwch y Garddwr ym Mhlas Newydd, Llangollen



**Dydd Llun 5 Mehefin**

**10:00 - 17:00**

Helpwch y Garddwr yng Ngardd yr Arglwydd, Nantclwyd y Dre, Rhuthun




**Dydd Mercher 7 Mehefin**

**10:00 - 15:00**

Dysgu sut i godi wal gerrig, Bryn Gop. Cludiant ar gael o Loggerheads a Rhyl. (Archebwch le os gwelwch yn dda)






**7aiMaWa4nWyehefGlöyh0B0yw a6:0indys**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Beth mae'r lindys llwglyd wedi bod yn eu bwyta yn Loggerheads? £2.50.

**Dydd Mercher 7 Mehefin 20:30 - 22:30**
**Bywyd Nos Moel Famau**
Cyfarfod: Maes Parcio Coedwig Moel Famau SJ 174 613
Taith gerdded drwy'r goedwig ac i'r rhostir adeg y cyfnos i weld bywyd gwyllt. Edrychwch am ystlumod, gwyfynod ac efallai y gwelwn droellwyr mawr hyd yn oed. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Iau 8 Mehefin 15:45 - 17:00**
**Antur Fach ar ôl Ysgol 1**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Archwiliwch y byd natur a dysgwch amdano gyda'r Warden ym Mharc Gwledig Loggerheads dros y pedair sesiwn fer yma, gyda gweithgareddau gwahanol ym mhob digwyddiad, mae croeso i chi fynychu pob un neu ddod i un yn unig. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Iau 8 Mehefin 20.45 - 23:00**
**Troellwyr Mawr Nantyr**
Cyfarfod: Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llangollen
Taith gerdded hamddenol o amgylch Coedwig Nantyr wrth i ni chwilio am y troellwr mawr dirgel. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Sadwrn 10 Mehefin 10:00 - 15:30**
**Taith Gerdded Suo**
Cyfarfod: Swyddfeydd Caledfryn Cyngor Sir Ddinbych, Ffordd y Ffair, Dinbych
Cylchdaith o Ddinbych i Henllan i ddathlu ein pryfaid peillio. Dewch â phecyn cinio ar gyfer y llwybr 7.5 milltir hwn. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Sadwrn 10 Mehefin**
**10:00 - 15:00**
**Dewch i roi tro ar bysgota bras**
Cyfarfod: Pwll y Brickfield, y Rhyl
Dysgwch sut i baratoi a physgota mewn modd effeithiol, diogel, ac ecogyfeillgar. Darperir offer, abwyd a chyngor. Gwisgwch yn addas ar gyfer y tywydd. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 14 Mehefin**
**10:00 - 12:00**
**Dydd Mercher Adar y Môr**
Cyfarfod: Maes Parcio Gronant Isaf SJ090 836
Taith dywys o amgylch nythfa'r Môr-Wenoliaid Bychan i ddysgu am yr adar arbennig yma.

**Dydd Mercher 14 Mehefin**
**18:00 - 22:00 pm**
**Taith Gerdded UFO ar y Berwyn**
Cyfarfod: Maes Parcio Cyhoeddus yn Llandrillo SJ035 372
Damwain enwog yr UFO ar y Berwyn – gwir neu gau? Ymunwch â ni ar y daith gerdded hon ar y rhos gydag un o'r llygaid dystion gwreiddiol. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 14 Mehefin**
**Rhoi Tro ar Fowlio**
**14:00 - 16:00**
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Dewch i roi tro ar fowlio yn lleoliad godidog gerddi Plas Newydd gyda Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r Swyddog Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Friends of the Clwydian Range and Dee Valley

**Dydd Iau 15 Mehefin**
**15:45 - 17:00**
**Antur Fach ar ôl Ysgol 2**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Gweler cofnod dydd Iau 8 Mehefin am fanylion. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Gwener 16 Mehefin**
**10:00 - 12:00**
**Taith Cwrdd y Garddwr**
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Dewch ar daith gyda'r garddwr i ddarganfod cyfrinachau'r ardd ym Mhlas Newydd.

**Dydd Mawrth 20 Mehefin**
**10:00 - 15:00**
**Adeiladu Llwybr Bordau**
Cyfarfod: Mynedfa gwersyll gwyliau Presthaven
Dewch i helpu ailadeiladu rhan o Lwybr Bordau yn y twyni tywod sy'n arwain at nythfa'r Môr-Wenoliaid Bychan. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 21 Mehefin**
**12:30 - 16:30**
**Bryniau Prestatyn**
Cyfarfod: Maes Parcio Golygfan Gwaenysgor SJ075 819
Ymunwch ag Uwch Swyddog Cefn Gwlad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a Warden y Safle ar daith gerdded i edrych ar gynefinoedd a nodweddion diddorol Bryniau Prestatyn ac i weld sut mae'r safle'n cael ei reoli'n barhaol.

**Dydd Iau 22 Mehefin**
**15:45 - 17:00**
**Antur Fach ar ôl Ysgol 3**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Gweler cofnod dydd Iau 8 Mehefin am fanylion. Archebwch le os gwelwch yn dda.
.

**Dydd Sadwrn 24 Mehefin**
**14:00 - 16:00**
**Gwneud barcud draig**
Cyfarfod: Castell Dinas Bran
Dewch i wneud eich barcud draig eich hun - gallwch ddod ag ef i'r gynhadledd dreigiau yn Ninas Bran fis Gorffennaf. £4

**Dydd Sadwrn 24 Mehefin**
**10:00 - 12:00 & 14:00 - 16:00**
**Llwybr Archeolegol Llyn Brenig**
Cyfarfod: Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig, cyn mynd at y Llwybr.
Cyfle i ymweld gyda'r Archeolegydd Sirol a Warden Dŵr Cymru i ddysgu am y tirlun diddorol yma. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Sul 25 Mehefin**
**18:30 - 20:30**
**'The Tempest',**
**Theatr Awyr Agored Shakespeare**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Perfformiad hudol arall gan gwmni 'Taking Flight Theatre', Oedolion £14, Gostyngiadau £10, Plant £6, Tocyn teulu £32. Archebion ar-lein www.chapter.org 02920 04400, neu prynwch eich tocynnau o Ganolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Loggerheads. Disgrifiad awdio ac iaith arwyddo. Ymweliadau cyfarwyddo ar gael ar ofyn. Bwydlen cyn theatr ar gael yng Nghaffi Florence - rhaid archebu o flaen llaw ffoniwch
01352 810 397

**Dydd Mercher 28 Mehefin**
**10:00 - 15:00**
**Cylchdaith Llangollen**
Cyfarfod: Tu allan i Ganolfan Dwristiaeth Llangollen, Heol y Castell
Taith gerdded 7 milltir o hyd o Langollen, gyda rhai llethrau serth. Cyrraedd am 9:45, cychwyn am 10:00. Dim cŵn. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Iau 29 Mehefin**
**15:45 - 17:00**
**Antur Fach ar ôl Ysgol 4**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Gweler cofnod dydd Iau 8 Mehefin am fanylion. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Gwener 30 Mehefin**
**10:00 - 12:00**
**Dydd Gwener Adar y Môr**
Cyfarfod: Maes Parcio Gronant Isaf
SJ090 836
Taith dywys o amgylch nythfa'r Môr-Wenoliaid Bychan.

**Dydd Iau 6 Gorffennaf**
**10:00 - 15:00**
**Clirio'r Ffromlys**
Cyfarfod: Maes Parcio Corwen LL21 0DN
Rhowch help llaw i gael gwared o'r Ffromlys. Dewch ag Esgidiau Glaw, BBQ am ddim.

**Dydd Llun 10 Gorffennaf**
**11:00 - 13:00**
**Cyflwyniad i Arddwriaeth**
Cyfarfod: Gerddi Nantclwyd y Dre
Sesiwn yn cynnwys adnabod planhigion, arddangosfa, sesiwn cwestiwn ac ateb a gweithgareddau ymarferol. £2 y person. Nifer cyfyngedig o lefydd, rhaid cadw lle o flaen llaw. Ffoniwch 01824 708232.

**Dydd Llun 10 Gorffennaf**
**11:00 - 12:00 & 14:00 - 15:00**
**Celf yn y Carchar**
Cyfarfod: Carchar Rhuthun
Dewch i ddysgu tynnu portreadau pastel yng Ngharchar Rhuthun. Addas ar gyfer oedolion a phlant hŷn. Cynwysedig yn y pris mynediad.

**Mercher 12 Gorffennaf**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Craig Arthur**
Cyfarfod: Maes Parcio Pafiliwn Llangollen am lifft i fyny
Dewch i glywed am chwedlau'r ardal.

**Dydd Sul 16 Gorffennaf**
**10:00 - 12:00**
**Dydd Sul Adar y Môr**
Cyfarfod: Maes Parcio Gronant Isaf SJ090 836
Taith dywys o amgylch nythfa'r Môr-Wenoliaid Bychan i ddysgu am yr adar arbennig yma.

**15 - 23 Gorffennaf**
**Tecstilau yn y Coed**
Cyfarfod: Plas Newydd
Ewch i www.llangollenfringe.co.uk

**Dydd Iau 20 Gorffennaf / 14:00**
**Cystadleuaeth Arlunio Chwedlau Dyffryn Dyfrdwy**
Cyfarfod: Y Caban, Plas Newydd
Agoriad Arddangosfa Arlunio a Gwobrwyo.

**Dydd Sadwrn 22 Gorffennaf**
**10:00 - 12:00**
**Cloddfa Penycloddiau**
Cyfarfod: Maes Parcio Llangwyfan SJ 1389 6684
Darganfyddwch beth sydd wedi digwydd yn y gwaith cloddio ym mryngaer Penycloddiau eleni. Archebwch le.

**Dydd Sadwrn 22 Gorffennaf**
**14:00 - 17:00**
**Dreigiau yn Ninas Bran**
Cyfarfod: Castell Dinas Bran
Rydyn ni'n cynnal cynhadledd! Dewch a'ch dreigiau i'r castell a mwynhewch straeon y storïwyr.

**22 Gorffennaf - 3 Medi**
**10:00 - 16:00**
**Haf y Chwedlau - Chwedl Wahanol Bob Wythnos!**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Llwybr chwedl leol wahanol bob wythnos. Cewri, ellyllon, tylwyth teg a llawer mwy! Dilynwch y llwybr i hawlio'ch gwobr. Cwblhewch y 5 llwybr cyntaf er mwyn derbyn y 6ed llwybr am ddim! £2.50

## Hwyl Gwyliau Haf

**Cyfarfod: Carchar Rhuthun a Nant Clwyd y Dre, Rhuthun**
Llawer o weithgareddau a chrefftau i gadw'r teulu i gyd yn brysur yn ystod gwyliau'r haf. Addas ar gyfer pob oedran, dim rhaid archebu o flaen llaw. Cynwysedig yn y pris mynediad.

**Dydd Sul 23 Gorffennaf**
**Cynllun Gerddi Cenedlaethol yng Ngardd yr Arglwydd**
Cyfarfod: Rhuthun
Bydd 6 gardd wahanol ar agor gan gynnwys Nantclwyd y Dre a gardd yr Arglwydd sydd wedi ei hadfer. Gellir prynu lluniaeth, bydd elw yn mynd at Gyfeillion yr eiddo. Am docynnau www.ngs.co.uk

**Dydd Sul 23 Gorffennaf**
**11:00 - 16:00**
**Diwrnod Agored Archaeolegol ym Moel y Gaer Bodfari**
Cyfarfod: Maes Parcio SJ0948 7098
Cyfle i ymweld â'r gwaith cloddio ym mryngaer Oes Yr Haearn Moel y Gaer Bodfari. Galwch heibio unrhyw bryd rhwng 11 a 4.

**Dydd Iau 25 Gorffennaf**
**13:00 - 15:00**
**Trochi afon yng Ngro Isa**
Cyfarfod: Pafiliwn Chwaraeon Corwen
Argymhellir Esgidiau Glaw!

**Dydd Mercher 26 Gorffennaf**
**11:00 - 15:00**
**Ffyn Hud y Coblynnod a'r Tylwyth Teg**
Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Ymunwch â 'Creative Willow' yng Ngerddi Te Loggerheads i greu ffyn hud Coblynnod ac Adenydd Tylwyth Teg. £4.

**Dydd Mercher 26 Gorffennaf**
**14:00 - 16:30**
**Taith dywys i weld y gwaith cloddio ym Moel y Gaer Bodfari**
Cyfarfod: Cychwyn yn y safle bws ym Modfari SJ0979 7018
Taith gerdded ar hyd llwybr cenedlaethol Clawdd Offa i weld yr archeolegwyr ym mryngaer Moel y Gaer Bodfari.
Archebwch le os gwelwch yn dda.



# HELFA DDINOSORIAID FAWR FIGTORIANAIDD

**Dydd Mawrth 25 Gorffennaf**
10:00 - 11.30 Parc Gwledig Loggerheads
14:30 - 16:00 Parc Gwledig Tŷ Mawr

**Dydd Mercher 26 Gorffennaf**
10:00 - 11:30 Pencoed, Dinbych
14:30 - 16:00 Coed y Morfa, Prestatyn

**Dydd Iau 27 Gorffennaf**
10:00 - 11:30 Plas Newydd, Llangollen
14:30 - 16:00 Pen y Pigyn, Corwen
derchrau o faes parcio canol y dre

**Yn dychwelyd ar ôl galw mawr... Ymunwch ag 'Off Book Theatre' ar daith i ddarganfod creaduriaid ers y cyfnod cyn hanesyddol... efallai y gwelwch y Tyranosor Recs ei hun!**
Bydd y chwilio'n mynd a'r gynulleidfa i ddyffryn dirgel coll, gan ddod ar draws amryw o anifeiliaid gwyllt a dinosoriaid ar hyd y ffordd. Cânt ddysgu am y creaduriaid y byddant yn eu gweld, yn ogystal â chael hwyl. Pypedau realistig iawn yw'r creaduriaid. Addas ar gyfer plant oedran Ysgol Gynradd. Rhaid archebu lle.

**Dydd Mercher 26 Gorffennaf**
**9:00 - 12:00**
**Gwyllt yn y Llan**


Cyfarfod: Llangollen
Clwb gwyliau wedi ei ysbrydoli gan Ysgol Goedwig ar gyfer plant rhwng 2 – 8. Rhaid cadw lle ffoniwch 07968016884 / 07528084925 neu anfonwch ebost at wildeducation@outlook.com. £10

**Dydd Iau 27 Gorffennaf**
**Archeoleg a Bywyd Gwyllt y Gwyll**
**20:00 - 22:00**

Cyfarfod: Maes Parcio uchaf, Coed Llangwyfan ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch SJ139668
Taith gerdded drwy Goed Llangwyfan ac at Fryngaer Penycloddiau gyda'r Warden ac Archeolegydd y Sir. Byddwn yn darganfod hanes y fryngaer ac yn gwylio machlud haul gwych gobeithio, ar ôl hynny byddwn yn mynd yn ôl i lawr ac yn edrych am fywyd gwyllt.
Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Sadwrn 29 Gorffennaf**
**10:30 - 16:00**
**Hwylddydd Coedwig Moel Famau**


Cyfarfod: Maes parcio Coed Moel Famau SJ174 613



Hwylddydd llawn gweithgareddau, bydd padlo yn y nant, crefftau i blant, adeiladu cuddfan, teithiau tywys, arddangosfeydd, gwybodaeth a chynnyrch bwyd lleol (ffi parcio £2).

**Dydd Mawrth 1 Awst**
**10:00 - 12:00**
**Cloddfa Penycloddiau**

Cyfarfod: Maes Parcio Llangwyfan
SJ 1389 6684
Darganfyddwch beth sydd wedi digwydd yn y gwaith cloddio ym mryngaer Penycloddiau eleni. Archebwch le os gwelwch yn dda.



**Dydd Mercher 2 Awst**
**11:00 - 15:00**
**Adenydd Hud y Coblynnod a'r Tylwyth Teg**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Ymunwch â 'Creative Willow' yng Ngerddi Te Loggerheads i greu adenydd hud Coblynnod ac Adenydd Tylwyth Teg. £4.

**Dydd Gwener 4 Awst**
**19:30pm**
**'Around the World in 80 Days'**

Trenau, llongau a llongau stêm; eliffantod, tywysogesau Indiaidd a ditectif amheus – dyma'r antur fyd-eang wreiddiol! Ymunwch ag 'Off the Ground' dros yr haf i brofi antur wyllt, gan groesi pob cyfandir! Am brisiau a thocynnau perfformiad offtheground.co.uk
Bwydlen cyn theatr ar gael yn yr ystafelloedd te, i archebu bwrdd ffoniwch 01978 862834

**Dydd Llun 7 Awst**

## Planhigion â Phwrpas

**11:00 - 12:00**

Cyfarfod: Gardd yr Arglwydd, Rhuthun

Dysgwch am y planhigion a dyfwyd mewn gerddi Canoloesol, ar gyfer pleser addurniadol a synhwyrol, ond hefyd i drin y tir ar gyfer y bwyd, llifion, a chynhwysion at bwrpas meddygol. £2 y person (talu ar y diwrnod) Am ddim os talwyd tâl mynediad.

**Dydd Llun 7 Awst**
**11:00 - 13:00 & 14:00 - 16:00**
**Cyfrinachau'r Carchar**

Cyfarfod: Carchar Rhuthun

Dewch i glywed straeon y carchar, i'r hen a'r ifanc. Cynwysedig yn y pris mynediad.

**Dydd Mercher 9 Awst**
**Taith Gerdded Ystlumod Prestatyn**
**20:30 - 22:15**

Cyfarfod: Maes Parcio Coed y Morfa

Dewch am dro o amgylch safleoedd Cefn Gwlad Prestatyn i weld pa rywogaethau ystlum y gallwn eu darganfod. Dewch â thortsh. Archebwch le os gwelwch yn dda.

**Dydd Mercher 9 August**
**10:00 - 14:00**
**Taith Gerdded Eithaf Byr Chwarel Moel Fferna / Mynydd y Berwyn**

Cwrdd: cilfan yng Nglyndyfrdwy gyferbyn hen Dŷ'r Gloÿnnod Byw SJ157425

Byddwn yn gyrru fyny ac yna'n archwilio chwedlau'r mynydd – a'r chwarel ffantastig. Archebwch le os gwelwch yn dda.



**Dydd Iau 10 Awst**
**13:00 - 15:00**
**Trochi ac adeiladu cuddfan ger y nant**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Rhowch eich esgidiau glaw ymlaen a dewch i weld beth sy’n byw yn y nant - darperir rhwydi.

**Dydd Sadwrn 12 Awst**
**11.30 - 14.30**
**Marchogion a Thywysogesau**

Cyfarfod: Nantclwyd y Dre, Rhuthun
Dewch i ymuno yn yr hwyl yn Nantclwyd ar y diwrnod chwarae hwn i'r teulu. Gweithgareddau a gemau – dewch mewn gwisg ffansi a bydd cyfle i ennill gwobr. Cynwysedig yn y tâl mynediad.

**Dydd Sadwrn 12 Awst**
**21:00 - 23:00**
**Meteoritau yn y Nos**

Cyfarfod: Maes Parcio’r Ganolfan Hamdden, Corwen
Noson o sêr gwib yng Nghaer Drewyn.

**Dydd Llun 14 Awst**
**10:00 - 12:00**
**Llu Llus**

Cyfarfod: Maes parcio golygfan Penbarras Moel Famau SJ174 613
Dewch a’r plant a chynhwysydd a dewch am dro gyda'r warden i'r rhostir i bigo’r llus bach blasus hyn, cyn mynd a nhw adref i'w bwyta neu eu defnyddio i'w gwneud yn gacennau, crempogau, jam neu unrhyw rysáit arall. Archebwch le os gwelwch yn dda.

Dydd Iau 17 Awst
**Dewch i ymweld â Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Thîm Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Sioe Dinbych a Fflint.**

**Dydd Mercher 23 Awst**
**9:00 - 12:00**
**Gwyllt yn Llan**

Cyfarfod: Llangollen
Clwb gwyliau wedi ei ysbrydoli gan Ysgol Goedwig ar gyfer plant rhwng 2 – 8. Rhaid cadw lle ffoniwch 07968016884 / 07528084925 neu anfonwch e-bost at wildeducation@outlook.com. £10

**Dydd Iau 24 Awst**
**20:00 - 22:00**
**Ystlumod ym Mhobman**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Cyfle i ddysgu am ystlumod gyda chyflwyniad byw cyn taith gerdded hawdd o filltir gan ddefnyddio darganfyddwyr ystlumod a'r hyn rydym wedi ei ddysgu! Dewch â thortsh.

**Dydd Llun 28 Awst**
**5.30 - 8.00**
**Awr Aur Pŵer Piws**

Cyfarfod: cilfan orllewinol i'r dwyrain o Lyndyfrdwy am lifft i fyny SJ157 425
Ymunwch â ni am dro i ben Moel Morfydd i weld y rhostir grugog eang pan fydd yn garped piws, wrth i'r byd ddeffro! Archebwch le os gwelwch yn dda

**Dydd Mawrth 29 Awst**

# DARGANFOD YSTLUMOD LU!

**12:00 - 15:00** Cyfarfod: Natclwyd y Dre

**Ydych chi'n ysu am ystlumod? Fe ydym ni!**
Gwobr gwisg ffansi ar gyfer y wisg orau sydd wedi ei hysbrydoli gan ystlum, gwneud masgiau, "hela'r ystlum" a llawer mwy. Cynwysedig yn y pris mynediad



**2 - 3 Medi**
**Gŵyl Gerdded Corwen**
www.corwenwalkingfestival.co.uk

**Dydd Mercher 13 Medi**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded fer o amgylch Dinas Bran**

Cyfarfod: Maes Parcio Pafiliwn Llangollen am lifft i fyny
Mae Castell Dinas Bran yn llawn chwedlau - dewch i ddarganfod mwy!

**Dydd Sadwrn 16 Medi**
**10:00 - 12:00**
**Glanhau'r Traeth**

Cyfarfod: Caffi Hwb Harbwr y Rhyl SH995 808
Dewch i'n helpu ar y traeth ar gyfer digwyddiad glanhau ac arolygu traethau mwyaf y DU.


**Dydd Sul 17 Medi**
**Trwy'r dydd**

# Sioe Gwn



Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Sioe gŵn anffurfiol yn Loggerheads gyda nifer o ddosbarthiadau i'w mwynhau. Cofrestrwch ar y diwrnod.





# WYTHNOS EITHRIADOL

## 16 - 24 Medi

**Ewch am dro yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i ddathlu tirluniau gorau'r DU yn ystod yr Wythnos Eithriadol Genedlaethol**

**Dydd Sadwrn 16 Medi**
**10:00 - 15:00**
**Cylchdaith Cilcain Loggerheads**

Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads.
Archwiliwch y Parc Gwledig, Lît a Ffridd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. 6 milltir



**www.landscapesforlife.org.uk**
**www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk**

**Dydd Mawrth 19 Medi**
**10:00 - 13:00**
**Rheilffyrdd, Hen Felinau a Dringfa Moel Hiraddug**

Cyfarfod: Maes Parcio Llwybr Diserth Prestatyn SJ062 794
Cyfle i ymweld â Rheilffordd na fu erioed â thraciau, gweld yr olygfa ogleddol orau o dir mynediad agored a Bryngaer o Oes yr Haearn y mae hanner ohoni wedi ei cholli.

**Dydd Iau 21 Medi**
**10:00 - 13:00**
**Rheilffyrdd, Pantiau a Bryniau a Golygfeydd Gogoneddus**

Cyfarfod: Maes Parcio Bryn Clawdd Offa SJ073 822
Taith gerdded ar hyd bryniau arfordirol a diwydiant cynnar Bryniau Clwyd.



**Dydd Sul 24 Medi**
**13:00 - 15:00**
**Creu Creaduriaid Chwedlonol**

Cyfarfod: Plas Newydd
Creu eich creadur chwedlonol eich hun a chyfle i wneud eich hun yn fach er mwyn tynnu llun gyda'r creadur. £4

**Dydd Mercher 4 Hydref**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Caer Drewyn**

Cyfarfod: Maes Parcio Canolfan Hamdden Corwen
Dewch i ddarganfod mwy am gewri, ysbrydion a'r Frenhines Corwenna ar y fryngaer hon o Oes yr Haearn.

**Dydd Gwener 6 Hydref**
**10:00 - 13:30**
**Beth sydd mewn enw?**

Cyfarfod: Maes Parcio Pafiliwn Rhyngwladol Llangollen (y rhan ger y ffordd)
Taith gerdded 4.3 milltir ar hyd llwybr Milltiroedd Cymunedol Bryn Heulog yn edrych ar yr enwau lleoedd Cymraeg ar hyd y dirwedd. Taith gerdded yn y Gymraeg fydd hon ac mae'n addas ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

**Dydd Mercher 11 Hydref**
**10.00 - 15:00**
**Cylchdaith Carrog**

Cyfarfod: Maes Parcio'r Grouse, Carrog
Ymunwch â Cherddwyr Wrecsam am daith gerdded 6 milltir gyda rhannau serth o dafarn y Grouse yng Ngharrog. Mae modd cael cinio wedyn. Dim cŵn os gwelwch yn dda. (9.45 er mwyn cychwyn am 10:00)

**Dydd Gwener 13 Hydref**
**10:00 - 12:00**
**Creigiau Bryniau Clwyd**

Cyfarfod: Maes Parcio uchaf, Coed Llangwyfan ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch SJ139668
Ymunwch â daearegwr arbenigol i ddysgu am greigiau'r ardal a sut cawsant eu ffurfio.

**Dydd Iau 26 Hydref**
**10:00 - 14:00**
**Taith Gerdded Hydrefol**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Cylchdaith 6 milltir i fwynhau arddangosfa anhygoel natur o liwiau gwych a golygfeydd hardd.

**Dydd Sadwrn 28 Hydref**
**17:00 - 19.30**
**Plas Newydd: Tynnu llun gyda'r golau**

Archwiliwch y gerddi wrth i'r golau bylu a thynnwch lun creaduriaid y nos. £4.



**28 Hydref– 5 Tachwedd**
**10:00 - 15:00**
**Helfa Calan Gaeaf**

Cyfarfod: Parc Gwledig Loggerheads
Cwblhewch y Llwybr Helfa Calan Gaeaf dychrynllyd er mwyn hawlio'ch gwobr. £2.50

**28 Hydref hyd at 3 Tachwedd**
**10:00 - 16:00**
**Wythnos Calan Gaeaf y Carchar**

Cyfarfod: Carchar Rhuthun
Hwyl Calan Gaeaf drwy'r wythnos. Cynwysedig yn y pris mynediad.



**Dydd Mercher 8 Tachwedd**
**10:00 - 12:00**
**Taith Gerdded Fer Coed Hyrddyn**

Cyfarfod: Maes Parcio Grîn Llantysilio SJ198 433

Archwiliwch chwedlau a hanes Coed Hyrddyn, Glyn Y Groes a Chroes Eliseg – a'r twmpath o'r Oes Efydd.




**Dydd Sul 3 Rhagfyr**
**13:00 - 15:00**
**Crefftau Nadolig**

Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen

Hwyl Nadoligaidd ym Mhlas Newydd. £4

**Dydd Mercher 6 Rhagfyr**
**Cystadleuaeth Flynyddol Plygu Gwrych Gwirfoddol**

Lleoliad i'w gadarnhau, ymunwch fel rhan o dîm er mwyn plygu rhan o wrych. Mae plygu gwrych yn grefft bwysig er mwyn ailfywiogi gwrychoedd, un o'n cynefinoedd pwysicaf.



**9, 16, 17 a 22 Rhagfyr**
**11:00 - 15:30**

## Siôn Corn


**ym Mharc Gwledig Loggerheads**

Dewch i gwrdd Siôn Corn, clywed stori Nadolig a chael anrheg bach gan Ymddiriedolaeth Plas Derw. Oedran Targed 4-7.

**Amseroedd 11am, 12pm 13:30, 14:30 a 15:30**

£8 I gadw lle ffoniwch 01352 840955 neu e-bostiwch: forestschool@gmail.com

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site





## Caneuon a Straeon

Bydd Ruth Moore Williams yn adlonni ymwelwyr gyda chaneuon traddodiadol a chwedlau o Gymru gyfan. **Am ddim**
**11am- 3pm / Sadwrn 27 Mai, 24 Mehefin, 29 Gorffennaf, 26 Awst, 30 Medi.**

## Sadwrn Crefftus Plant

Addas i blant rhwng 3 a 10 oed.
**Am ddim**
**11am- 3pm / Sadwrn 1af y mis - Mawrth 4, Ebrill 1, Mai 6, Mehefin 3, Gorffennaf 1, Awst 5, Medi 2, Hydref 7, Tachwedd 4 a Rhagfyr 2.**

## TEITHIAU A SGYRSIAU

Teithiau tywys am ddim yn Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte gyda thywysydd lleol. **Am ddim**
**11am- 3pm / Sadwrn 15 Ebrill, 20 Mai, 22 Gorffennaf a 19 Aws.**

**Canolfan Ymwelwyr Basin Trefor**
**Gwybodaeth bellach: 01978 822912**

Glandŵr Cymru
The Canal & River Trust in Wales






Mae Dydd Llun yn ddyddiau gwirfoddoli yng

# Ngardd yr Arglwydd

Os ydych yn caru gerddi ac os hoffech helpu yng ngerddi hanesyddol Nantclwyd y Dre, Rhuthun, hoffem glywed gennych! Croeso i bob gallu.

**Cysylltwch â ni ar 01824 709822 neu anfonwch e-bost**









Edrychwch allan am ddigwyddiadau Awyr Dywyll yn dod yn fuan, dilynwch ein tudalen facebook am fanylion.

Clwydian Range & Dee Valley AONB

# Fforio'n bellach




Mae trefi lleol, pentrefi a chefn gwald o amgylch Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cynnig dyddiau difir.

Mae cyfres o bamffledi milltiroedd cymunedol a llwybrau tref yn arweiniad perffaith ar gyfer eich ymweliad, lawrlwythwch y taflenni o'r gwefannau canlynol neu casglwch o Barc Gwledig Loggerheads.

discoverdenbighshire.co.uk/detail_booklets.asp
denbighshirecountryside.org.uk/community-miles
exploreflintshire.co.uk/discover/trails-and-tours



# AR EICH BEIC

O lwybrau camlas, beicio ffordd, bmx, llwybrau pwrpasol a naturiol beicio mynydd i lwybrau lawr allt egnïol, maent i gyd yma yn Sir Ddinbych!

beiciogogleddcymru.co.uk

Cadwch at lwybrau cyfreithiol os gwelwch yn dda a byddwch yn feddylgar o ddefnyddwyr eraill wrth fynd ar eich beic. @ridenorthwales

## ANTUR UN BLANED

Coed Llandegla, LL11 3AA

Fel un o ganolfannau gorau'r DU dylech ddisgwyl llwybrau yn llawn antur.

**BEICIO MYNYDD CYMRU**

**CYFRES DRAWS GWALD ROWND 2**

**Mai 7** www.britishcycling.org.uk/wales/mtb

**CYFRES DRAWS GWALD ROWND 3**

**Gorffennaf 8** www.borderline-events.co.uk

**#MTBMEETUP**

**3 Mehefin**

Mae casgliad gwreiddiol beicio mynydd yn dychwelyd i Landegla. Os ydych yn feiciwr rheolaidd neu yn newydd i feicio mynydd, mae yna rywbeth i bawb.

@MTBMeetupUK MTBMeetup

www.mtbmeetup.uk

## ONE GIANT LEAP

Llangollen, LL20 8AR

Nid yw cymryd rhan i'r gwan galon, ond mae gwylio yn hwyl!

**CYFRES BORDERLINE LAWR ALLT ROWND 3**

Mehefin 24 – 25

www.borderline-events.co.uk

**CYFRES LAWR ALLT PRYDEINIG ROWND 5**

Awst 19 – 20

www.britishdownhillseries.co.uk



# Cerddwch, Teimlwch y Gwahaniaeth

## Mwy Iach, Heini a Hapus

Ymunwch ag un o'r teithiau cerdded wythnosol rheolaidd hyn i wella eich iechyd, cynyddu eich ffitrwydd ac ailwefru eich lles. Mae cerdded yn rheolaidd o fudd i reoli pwysau, yn cadw eich calon yn iach, gan leihau'r risg o ddiabetes math 2 a rhai mathau o ganser.

### Dydd Llun

**Y Waun** / 09:30 / ffoniwch 01691 778666 ar gyfer y pwynt cyfarfod, 60 mun LL14 5NF

**Llanelwy** / 10:30 / Lawnt Fowlio taith gerdded 90 munud LL17 0RQ

**Gwaenysgor** / 11:00 / Neuadd Bentref taith gerdded 2 awr LL186LG

**Prestatyn** / 1:45 / Sinema Scala 40 mun LL19 9LR

**Yr Orsedd** / 2:00 Burton Weir wrth y danffordd taith 60 mun

### Dydd Mawrth

**Corwen** / 09:30 / Canolfan Ni 1awr LL21 0DP

**Dyfroedd Alun** / 2:00 pm / maes parcio ochr Llai 75-90 mun

**Dyserth** / 11:00 / Canolfan Gymunedol 2awr LL18 6LP

### Dydd Mercher

**Llanelwy** / 10:30 / Lawnt Fowlio taith gerdded 90 mun LL17 0RQ

**Llangollen** / 10:30 / Canolfan Iechyd hyd at 60 mun LL20 8NU

**Corwen** / 1pm / Canolfan Ni 2awr LL21 0DP

### Dydd Iau

**Rhuddlan** / 11:00 / Eglwys Fethodistaidd, Stryd Gwindy 120 mun LL18 5PU

**Parc Acton** / 11:00 / Eglwys Sant Ioan CP, Rhodfa Herbert Jennings LL12 7YF 50 mun

**Llai** / 11:00 / Canolfan Lles y Glowyr, hyd at 75 mun LL12 0TH

### Dydd Gwener

**Y Rhyl** / 12:30 Pwll Brickfield 90 mun LL18 2YR

Mae teithiau cerdded rheolaidd ar gael o Lanasa a Phrestatyn. Am ragor o fanylion ffoniwch 01745 356197.

Troedio CLWYD Walks

Dewch i Gerdded Let's Walk

Cyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Friends of the Clwydian Range and Dee Valley

# Dewch yn Gyfaill

Mae'r Cyfeillion yn sefydliad aelodaeth newydd sy'n helpu pobl i ddarganfod, mwynhau a gwarchod tirwedd eithriadol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Dyma rhai digwyddiadau sydd i ddod er mwyn galluogi pobl i ddarganfod rhai trysorau cudd...





**Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle ar unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, ffoniwch 01244 535173 hello@friends.cymru**

### H&D Fitzgerald
Dydd Gwener 31 Mawrth / 1:45 yn y Salusbury Arms, Tremeirchion i rannu ceir
Cyfle prin i ymweld â labordy meteoroleg dwysedd sydd yn gwneud gwaith rhyngwladol a choedwig.

### Moel Hiraddug
Dydd Mercher 12 Ebrill / 10:00 - 13:00
Ymwelwch â bryngaer hanesyddol yng nghwmni ein tywysydd lleol Jeff Morgan.

### Safle Bridio Gwartheg Genus
Dydd Mercher 10 Mai / 10:30 - 12:30
Ger Graigfechan.

### Dyfrbont Pontcysyllte
Dydd Iau 25 Mai / 14:00 - 16:00
Ymwelwch â'n Safle Treftadaeth Byd gyda'r Tywysydd Sarah Jones.

### Rhowch gynnig ar fowlio
Dydd Mercher 14 Mehefin / 14:00 - 16:00
Cyfarfod: Plas Newydd, Llangollen
Dewch i roi cynnig ar fowlio yn awyrgylch godidog Plas Newydd.

### Beth sydd mewn enw?
Dydd Gwener 6 Hydref / 10:00 - 13:30
Cyfarfod: Maes Parcio Pafiliwn Rhyngwladol Llangollen (yr ardal nesaf i'r ffordd)
Tro 4.3 milltir a'r hyd Lwybr Cymunedol Bryn Heulog yn edrych ar enwau Cymraeg yn y tirlun. Bydd y daith yma yn Gymraeg ac yn addas ar gyfer dysgwyr.

### Creigiau Bryniau Clwyd
Dydd Gwener 13 Hydref / 10:00 - 12:00
Cyfarfod: Maes Parcio Uchaf Coed Llangwyfan, ar y ffordd rhwng Llangwyfan a Nannerch SJ139 668. Ymunwch ac arbenigwr daearegol i ddysgu am greigiau'r ardal a'u gwneuthuriad.